


# LITMUS



## Galwad Agored - Litmus: Taflen Wybodaeth ar gyfer Rhannau 4 a 5

Arddangosfa a rhaglen ddatblygu ydy **Litmus**, sy'n cynnig cymorth curadurol ac ymarferol i bump o artistiaid newydd sy'n byw yng Nghymru a'r Gororau, i ymchwilio, datblygu a chyflwyno gwaith newydd yn **Oriel Davies**.

Gwahoddir artistiaid i gyflwyno ceisiadau ar gyfer naill ai rhan 4: Cyfnod Preswyl Litmus neu rhan 5: Comisiwn Litmus.

Mae **Litmus** wedi'i lleoli yn ein trydydd gofod arddangos, sy'n ofod bach, ond eto hyblyg, sy'n mesur 158cm (ll) x 212cm (h) x 219cm (u). Wrth i ni sefydlu'r rhaglen hon, mae artistiaid yn cael eu hannog i gyflwyno ceisiadau sy'n ystyried gofodau / manau eraill yn Oriel Davies (boed yn gorfforol neu'n ddigidol), a'r ardal gyfagos.

Mae artistiaid yn cael eu hannog i gyflwyno ceisiadau sy'n dangos uchelgais, natur arbrofol a chymryd risgiau creadigol fel rhan o ymrwymiad i ddatblygu eu harfer creadigol.

### Beth sydd yn cael ei gynnig?

#### Cyfnod Preswyl Litmus

Fel rhan o'r cyfle hwn, rydych yn cael eich gwahodd i gynnig sut y gallech ddatblygu maes ymchwil neu agwedd, brosiect neu ddatblygiad newydd fel rhan o'ch arfer. Mae Cyfnod Preswyl Litmus yn gyfle i amser a gofod archwilio elfennau newydd o arfer.

- Cyfnod preswyl yn ein trydydd gofod arddangos. [Dyddiadau'r cyfnod preswyl: 9 Rhagfyr 2017 - 27 Ionawr 2018.](#)
- Cefnogaeth a sgwrs guradurol ac ymarferol gan Louise Hobson, Curadur Litmus, Alex Boyd Jones, Curadur Oriel Davies, a thîm ehangach yr oriel.
- Ffi o £600 a chyllideb ychwanegol o £400 am gostau teithio, llety a threuliau.

#### Comisiwn Litmus

Rydych yn cael eich gwahodd i gynnig sut allwch chi egluro eich ymchwil presennol, canolbwyntio ar eich arfer a datblygu gwaith newydd fel rhan o'r cyfle hwn. Mae Comisiwn Litmus yn gyfle i brofi syniadau a gwireddu cam nesaf eich arfer.

- Arddangosfa yn ein trydydd gofod arddangos. Dyddiadau'r arddangosfa: 10 Chwefror - 11 Ebrill 2018.
- Cefnogaeth am syniadau curadurol ac am bryderon ymarferol gan Louise Hobson, Curadur Litmus, Alex Boyd Jones, Curadur Oriel Davies, a thîm ehangach yr oriel.
- Ffi o £600 a chyllideb ychwanegol o £400 am gynhyrchu, ac am adnoddau a threuliau.

## Pwy sy'n gallu gwneud cais?

- Artistiaid sy'n byw yng Nghymru a'r Gororau -nod Litmus ydy cefnogi artistiaid o ardal ddaearyddol eang ar draws Cymru a'r Siroedd o'i hamgylch (Sir Gaer, Sir Amwythig, Swydd Henffordd, Sir Gaerloyw).
- Fel sefydliad sy'n ceisio cefnogi artistiaid o bob cefndir, mae Oriel Davies yn croesawu ceisiadau gan artistiaid Duon a Lleafrifoedd Ethnig a hefyd, yr artistiaid hynny sy'n nodi eu bod yn anabl.
- Artistiaid sy'n gweithio trwy unrhyw gyfrwng-nod Litmus ydy cefnogi artistiaid sydd ag amrywiaeth o arferion a dulliau artistig.
- Artistiaid newydd-bydd yr artistiaid fydd yn cael eu dethol yn y broses o sefydlu eu harfer creadigol/proffesiynol.
- Rydym yn edrych am yr artistiaid hynny a fydd yn elwa fwyaf o'r Rhaglen Litmus ac o'r gefnogaeth a'r sgwrs fydd ar gael.

## Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais drwy lawrlwytho a chwblhau'r **Ffurflen Gais ar gyfer Galwad Agored Litmus – Rhannau 4 a 5**, sy'n gofyn am y canlynol:

- Dywedwch wrthym os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer: **Comisiwn Litmus** neu ar gyfer **Cyfnod Preswyl Litmus**.
- Cyflwynwch eich hun ac eich arfer (dim mwy na 200 o eiriau)
- Amlinellwch sut rydych yn bwriadu defnyddio'r cyfle hwn, a chofiwch gynnwys syniadau a phwyntiau cychwynnol (dim mwy na 400 o eiriau)
- Dywedwch wrthym beth sy'n llywio eich arfer, a sut y gall y prosiect hwn eich galluogi chi i ddatblygu eich arfer ac i gefnogi eich datblygiad personol a/neu broffesiynol (dim mwy na 400 o eiriau)
- Atodwch eich CV (dim mwy na dwy dudalen A4)
- Atodwch un ffeil PDF o hyd at 6 o luniau ac/neu hyd at bedwar dolen gwe (i ffeiliau sain neu fideo) i ddangos enghreifftiau o'ch gwaith
- Lawrlwythwch, llenwch, ac atodwch ein ffurflen monitro cyfle cyfartal.

## Dyddiadau Pwysig

- Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: **Dydd Iau 05 Hydref 2017, 10pm**
- Hysbysu artistiaid am ddyddiad y cyfweiliad: **Dydd Iau 12 Hydref 2017**
- Cyfweiliadau artistiaid yn Oriel Davies, Y Drenewydd: **Mercher 18 Hydref 2017**
- Hysbysu'r artistiaid llwyddiannus: **Dydd Gwener 20 Hydref 2017**

**Dylid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau a deunydd ychwanegol drwy e-bost at:** Louise Hobson [litmus@oriel Davies.org](mailto:litmus@oriel Davies.org)  
gyda'r llinell bwnc: Cais Litmus - Rhannau 4 a 5

<http://www.oriel Davies.org/cy/news/articles/galwad-agored-litmus-taflen-wybodaeth-ar-gyfer-rhannau-4-5>